


## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 5 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o ddiweddariadau o bob cwr o'r sector a'n partneriaid, gan gynnwys dyddiadau hyfforddiant newydd sydd wedi'u rhyddhau a manylion am fwrsariaethau a llefydd am ddim a allai fod ar gael i gefnogi eich datblygiad. Rydym hefyd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Mae Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ar brosiect gofalwyr hŷn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.







**Amcangyfrifir bod gofalwyr hŷn yn gyfrifol am 96% o'r gofal a'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn cartrefi ledled Cymru. Mae'r ganran hon werth £10.6 biliwn i economi Cymru'n flynyddol. Mae**

**gofalwyr hŷn yn sylfaen hanfodol i'n systemau iechyd a gofal cymdeithasol – ond heb gymorth effeithiol, mae’n bosib bydd y straen corfforol, meddyliol, emosiynol ac ariannol yn mynd yn ormod i ofalwyr.**


Mae Age Cymru bellach yn hyrwyddo Llinell Wybodaeth a Chyngor newydd ar gyfer gofalwyr hŷn yng Nghymru: 03300 564 365. Mae’r gwasanaeth pwrpasol hwn yn rhan o’u gwaith parhaus i gefnogi gofalwyr hŷn, ac un o’r prif nodau eleni yw codi ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth ledled y wlad. Er mwyn cyrraedd cymunedau amrywiol, maent wedi datblygu pedwar poster wedi’u teilwra ar gyfer: gofalwyr hŷn yn gyffredinol, gofalwyr hŷn LHDT+, gofalwyr gwryw hŷn, a gofalwyr hŷn Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig.

**Darllenwch Gwybodaeth Llawn am y Prosiect**

---

## Ar gael i’w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Pwyllgorau:




**Dogfennau Pwyllgorau :**


Mae Un Llais Cymru yn cael ei harwain gan Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol o Gynghorwyr o Gynghorau sy’n aelodau, gyda chymorth pwyllgorau sy’n goruchwylio polisïau, cyllid, archwilio, a chyfathrebu. Mae Pwyllgorau Ardal yn sicrhau bod gwybodaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol yn cael ei thrafod a’i rhannu.

**Cliciwch ar y ddolen i weld dogfennau bob pwyllgor Un Llais Cymru**

**Mwy o Fanylion**

**......................**

### Nodiadau Datblygu Ymarfer:




**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**


Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

**Cliciwch ar y ddolen i weld y Nodiadau Datblygu Ymarfer**

Mwy o Fanylion

......................

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:




**Dyddiadau Hyfforddi:**


Mae Un Llais Cymru yn falch o gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn mynd i barhau â'r cynllun bwrsari am flwyddyn ariannol arall. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gynorthwyo cynghorau i gymryd rhan yn Rhaglen Hyfforddi Cynghorwyr Un Llais Cymru.

**Cliciwch ar y ddolen am ragor o fanylion am y cynllun bwrsari a'r cynnig lleoedd am ddim.**

Mwy o Fanylion

......................

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:




**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

---

## Cadwch y Dyddiad:

### Cynhadledd Arfer Arloesol: 'Cynllunio Ymlaen ar Gyfer Dyfodol Heriol'

**Dydd Mercher 2il Gorffennaf**

**10.15am - 3.45pm**

Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol, Llanfair ym Muallt

**Archebwch Yma**

### Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol

**Dydd Mercher 3 Medi**

Gwahoddir bob Cyngor yng Nghymru i fynychu.

### Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru

**Dydd Mercher 1 Hydref**

Ymunwch â ni am grynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn gan Un Llais Cymru.

---

## Ymgynghoriadau:

**Panel Ymgynghoriad**

Mae Un Llais Cymru bob amser yn ceisio gwella'r ffyrdd rydym yn cynrychioli ein Cynghorau. Mae'n bwysig bod gan Gynghorau lais cryf ar lwyfan cenedlaethol.

Rydym yn gweithio gyda Chynghorau i ymateb i ymarferion ymgynghori a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Mae Cynghorau mewn sefyllfa ddelfrydol i roi llais i'w cymunedau yn y cyfnod heriol hwn. Mae ymarferion ymgynghori yn ffurfio rhan bwysig o'n gwefan newydd.

Er mwyn gwella'r ffordd rydym yn rheoli'r trefniadau hyn, rydym yn ystyried creu panel bach i'n cynorthwyo i lunio ein hymatebion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ymarferion ymgynghori yn adlewyrchu barn Cynghorau Cymuned a Thref. Os oes gan eich Cyngor ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r panel hwn, anfonwch neges atom fel y gallwn asesu'r lefel o ddiddordeb. Yna byddwn yn ystyried ymhellach sut y gellid sefydlu a chefnogi'r panel.

**Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft**

The Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar ei Chynllun Drafft Hawliau Pobl Anabl, sy'n nodi uchelgais gadarnhaol ar gyfer hyrwyddo hawliau a chyfleoedd pob person anabl ledled Cymru dros y degawd nesaf.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar waith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a wnaeth ddwyn ynghyd pobl â phrofiad bywyd ac arbenigedd. Mae'n mynd i'r afael â'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu pobl anabl yn eu bywydau bob dydd ac yn amlinellu camau gweithredu uniongyrchol a chanlyniadau hirdymor i greu newid parhaol yn y ffordd y mae cymdeithas yn mynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant.

Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos yn croesawu mewnbwn gan unigolion, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau, gyda phwyslais arbennig ar glywed yn uniongyrchol gan bobl anabl am eu blaenoriaethau.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan **7 Awst 2025**. Cymerwch ychydig o amser i ddarllen y cynllun a rhannu eich barn. Gallwch ddod o hyd i'r ymgynghoriad a manylion ar sut i ymateb yma.

---

## Cyhoeddiadau:

### Chwarae mewn gofal iechyd

Mae Chwarae mewn gofal iechyd yn disgrifio’r gwahanol rolau medrus ac arbenigol sydd gan y gweithlu chwarae iechyd – fel arbenigwyr chwarae iechyd, gweithwyr chwarae iechyd a gweithwyr ieuenctid ysbyty. Mae’n trafod sut mae pob rôl yn cefnogi proses chwarae therapiwtig sy’n helpu plant ac arddegwyr sâl i addasu i leoliad gofal iechyd.

**Lawrlwytho'r daflen wybodaeth**

Mwy o Fanylion

### Cymhwyster Llywodraethu Cymunedol 2026

Yn cychwyn ym mis Chwefror 2026, mae’r rhaglen dysgu o bell hyblyg hon yn helpu cynghorwyr a swyddogion i ddatblygu sgiliau uwch mewn gwneud penderfyniadau lleol ac arweinyddiaeth gymunedol. Efallai y bydd cymorth ariannol ar gael drwy fwrsariaethau

Llywodraeth Cymru a Ymddiriedolaeth Addysgol SLCC.

**Cliciwch am y prosbectws llawn a manylion sut i gofrestru**

Mwy o Fanylion

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan OVW:

**Newyddion Prosiect Argyfwng Costau Byw:**

### Pontio'r Gagendor: Mynd i'r Afael â Heriau Costau Byw Gwledig Gyda'n Gilydd

**Dydd Mawrth 24 Mehefin**

**6.30pm - 8.30pm**

Ymunwch â ni i glywed gan gynghorau cymuned a thref sy'n llwyddo i gefnogi eu cymunedau gwledig trwy'r argyfwng costau byw. Bydd y weminar hon yn rhoi sylw i enghreifftiau go iawn o beth sy'n gweithio ar lawr gwlad, archwilio heriau cyffredin, a rhannu syniadau ymarferol i helpu eich cyngor i gyrraedd a chefnogi'r bobl sydd fwyaf eich angen. Mae'n gyfle i ddysgu oddi wrth gydweithwyr a chael eich ysbrydoli i weithredu yn eich ardal eich hun.

Dolen Zoom Ar Gyfer Sesiwn Cysylltu

Cofrestrwch (os Mynnwch)

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

**Mae'r rhaglen gyllido Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn anelu i greu 'Natur ar garreg eich drws'. Gallwn ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i'ch Cyngor.**

Mwy o Fanylion

## Ddigwyddiadau:

### Casgliad Llais y Goedwig 2025

Mae amser o hyd i archebu lle yng Nghasgliad Llais y Goedwig 2025 - maen nhw mewn dau leoliad eleni i roi hyd yn oed mwy o gyfle i chi archwilio'r ystod anhygoel o sgiliau a phrofiadau sydd gan Goedwigoedd Cymunedol i'w cynnig - archebwch yma

Archebwch Yma

---

## Wythnos Ymwybyddiaeth Sylw i Unigrwydd ac Unigedd



### Yr wythnos hon, rydyn ni'n falch o roi sylw i ymdrechion ysbrydoledig Cynghorau Cymuned a Thref yn ein fideo, sy'n dangos sut mae mentrau lleol yn helpu mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.

O foreau coffi a rhaglenni cyfeillio i lecynnau cymunedol cynnes, cynhwysol a digwyddiadau lleol, mae'r cynghorau hyn yn creu cysylltiadau go iawn lle y mae eu hangen fwyaf.


Gair o ddiolch twymgalon i'r cynghorwyr, gwirfoddolwyr, a phartneriaid sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i ofalu nad oes neb yn teimlo ar eu pen eu hunan. Mae eich tosturi yn newid bywydau.

Gwyliwch y fideo i weld y storïau grymus hyn ar waith — a dewch inni ddal ati i weithio gyda'n gilydd i adeiladu cymunedau mwy caredig, mwy cysylltiedig.

Gwyliwch y Fideo

---

## Hysbysebion:


### Vaughtons Civic

Mae Vaughtons yn un o brif wneuthurwyr y DU o regalia dinesig, Cadwyni Swydd, Medalau a mwy ar gyfer cymdeithasau, clybiau a Chynghorau ledled Prydain ac yn rhyngwladol.

Mwy o Fanylion


---


**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24 College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite